

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Adolygiad Blynyddol 2020/21

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) ar gyfer 2020/21. Mae'r prif bwyntiau o'r Adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2020/21.
- 1.2 Prif rôl y Pwyllgor yw darparu cymorth annibynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch materion sicrwydd a'i gynorthwyo i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, ac mae wedi derbyn ac ystyried canlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol. Bu'r Pwyllgor yn allweddol o ran diffinio agweddau ar y gwaith archwilio a monitro ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd.

### 2. Cylch Gorchwyl

- 2.1 Ym mis Medi 2020, aeth y Pwyllgor ati i adolygu a chytuno ar Gylch Gorchwyl y PASR, sydd wedi'i atodi yn Atodiad A.

### 3. Aelodaeth

- 3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys o leiaf bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol. Yn dilyn ymarfer recriwtio a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020 i ystyried cyfnod rhai aelodau yn y swydd a oedd yn dod i ben yn 2021, penodwyd dau aelod ychwanegol i'r PASR o fis Medi 2020. Dyma oedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2020/21:

- Mr Trevor Coxon, cyn Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Dr Tom Frawley CBE, cyn Ombwdsmon y Cynulliad a Chomisiynydd Cwynion Gogledd Iwerddon
- Mrs Anne Jones, cyn Gomisiynydd Gwybodaeth Cynorthwyol
- Mr Jim Martin, cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban
- Mr John McSherry (o fis Medi 2020), cyn Bennaeth Hawliadau Cartrefi yn Admiral Insurance
- Mr Jonathan Morgan (tan fis Gorffennaf 2020), cyn Aelod Cynulliad a chyn Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol
- Mr Mike Usher (o fis Medi 2020), cyn Arweinydd Strategol a Chyfarwyddwr Astudiaethau Ymchwilio yn Archwilio Cymru
- Mr Ian Williams, cyn Brif Weithredwr Grŵp Hendre Limited.

Rhoddodd Mr Morgan y gorau i fod yn Aelod Annibynnol ac yn Gadeirydd y PASR ar ôl ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, ar ôl iddo gael ei benodi i rôl mewn corff yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Yn unol ag argymhelliad yr Aelodau Annibynnol, penododd yr Ombwdsmon Mr Williams i ymgymryd â swydd y Cadeirydd o fis Medi 2020 ymlaen.

3.2 **Presenoldeb Aelodau'r PASR:** Cafodd holl gyfarfodydd y PASR eu cynnal ar-lein yn 2020/21 oherwydd pandemig parhaus y Coronafeirws. Yn dilyn adolygiad o ddyddiadau cyfarfodydd ym mis Awst 2020, cytunwyd y dylid aildrefnu cyfarfodydd y PASR i ddarparu adroddiadau mwy amserol i'r PASR ac i osgoi gwrthdaro â gwyliau cyhoeddus/diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn golygu nad oedd cyfarfod ym mis Mawrth 2021, ond cynhaliwyd cyfarfod ym mis Ebrill 2021 yn lle hynny. Roedd presenoldeb llawn ar gyfer y flwyddyn felly, mewn tri chyfarfod. Mynychodd pob aelod holl gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod eu haelodaeth. Dyma gofnod o'r presenoldeb:

Aelod o'r Pwyllgor	Uchafswm presenoldeb	Presenoldeb gwirioneddol	% presenoldeb
Jonathan Morgan (cyfarfod Gorffennaf yn unig)	1	1	100
Tom Frawley	3	3	100
Jim Martin	3	3	100
Trevor Coxon	3	3	100
Anne Jones	3	3	100
Ian Williams (Cadeirydd o fis Medi ymlaen)	3	3	100
Mike Usher (Aelod o fis Medi ymlaen)	2	2	100
John McSherry (Aelod o fis Medi ymlaen)	2	2	100

3.3 **Presenoldeb Arall:** Mae'r Ombwdsmon yn mynychu Cyfarfodydd y PASR ac mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Roedd archwilyr allanol (Archwilio Cymru), archwilyr mewnol (Deloitte LLP), aelodau priodol o Dîm Rheoli OGCC ac, fel sy'n briodol, aelodau eraill o staff OGCC wedi mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd.

3.4 **Gwrthdaro rhwng buddiannau:** Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cwblhau datganiad blynyddol o fuddiannau a gyhoeddir yn flynyddol ar wefan OGCC. Hefyd, mae'r eitem gyntaf ar agenda unrhyw un o gyfarfodydd y PASR yn gyfle i ddatgan unrhyw fuddiant sy'n benodol i eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw.

3.5 **Cyfnod penodiad:** Mae pob penodiad i'r Pwyllgor yn para am gyfnod penodol ac ymdrinnir â hyn mewn llythyrau penodi.

## 4. Hyfforddiant

4.1 Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol, ac mae'r asesiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod 2020, cyflawnodd yr Aelodau hyfforddiant ar Seiberddiogelwch a Rhagfarn Ddiarwybod. Cynhelir Gweithdy Risg ar gyfer aelodau'r PASR ym mis Mehefin 2021, a bwriedir cynnal hyfforddiant Llywodraethu ac Atebolrwydd ym mis Hydref 2021.

## 5. Cyfarfodydd a Busnes y Pwyllgor

5.1 Mae'r Cadeirydd yn adolygu'r agenda a'r papurau atodol sydd i'w trafod, cyn eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a'r bobl eraill fydd yn bresennol.

- 5.2 Mae'r Pwyllgor yn llunio ac yn dilyn ei raglen waith flynyddol ei hun. Mae'r cynllun gwaith hwn, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar gyflawni'r cynllun gwaith, ar gael yn Atodiad B. Cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn. Ymhob cyfarfod, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda.
- 5.3 Roedd eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys adroddiadau'n ymdrin â datganiadau o unrhyw dwyll neu golledion gan gynnwys colli data. O ran colli data ac er mwyn bod yn eglur, mae OGCC yn darparu tabl i'r Pwyllgor yn rhestru'r mathau o ddigwyddiadau, a'u dyddiadau, a chanlyniad ymchwiliad OGCC, gan gynnwys atgyfeirio i'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fo'n briodol. Mae OGCC wedi dilyn y Broses Digwyddiadau a Hysbysu Data yn ystod y flwyddyn, gan ganfod a chymryd camau pellach angenrheidiol i gywiro unrhyw ddiffygion mewn prosesau neu systemau. Nid oedd angen unrhyw atgyfeiriadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.
- 5.4 Eitem sefydlog arall yw rheoli risg. Ymhob cyfarfod ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar y risgiau mwyaf. Aeth y Pwyllgor ati i archwilio a herio'r risgiau a adroddwyd i fodloni ei hun bod pob risg allweddol wedi cael ei nodi. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i reoli risg a mesurau lliniaru risg.
- 5.5 Ym mhob cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Monitro Ariannol diweddaraf a gyflwynwyd i'r Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod craffu rheolaidd yn digwydd yn y swyddfa ar y sefyllfa ariannol, ac yr ystyriwyd materion a risgiau ariannol mewn rheolaeth ariannol.
- 5.6 Roedd y Pwyllgor yn cael adroddiadau hefyd ar nifer o faterion priodol eraill a oedd yn rhan o'i gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys: y cyfrifon naw mis; adolygiad o'r Polisi Chwythu'r Chwiban; diweddariadau ar ddatblygiadau TG pwysig; a materion llywodraethu ariannol a chorfforaethol perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adolygiad OGCC o Fframwaith Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet i fodloni ei hun fod trefniadau priodol ar waith. Roedd hefyd yn adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft ac adroddiad yr archwilydd, gan gynghori'r Ombwdsmon cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo.
- 5.7 Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Ombwdsmon er mwyn sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn cydymffurfio â'r arferion gorau.
- 5.8 Mae Rhaglen Waith arfaethedig y PASR ar gyfer 2021/22 wedi'i hatodi yn Atodiad C er gwybodaeth, ac mae ystyriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol i'w gweld yn adran 6 isod.

## **6. Ystyriaethau yn y dyfodol**

- 6.1 Wrth edrych ymlaen at flwyddyn 2021/22 bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â'i waith yn unol â'r Rhaglen Waith yn Atodiad C, gan ystyried y sylwadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys:
- gweithio i sicrhau bod digon o ffocws ar risgiau sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a TG;
  - cynllunio a rheoli agenda'r Pwyllgor i sicrhau nad oes dyblygu o ran gwaith y Panel Ymgynghorol a bod unrhyw orgyffwrdd yn cael ei leihau.

- 6.2 Yn ystod 2021/22, bydd gweithdy yn cynnwys aelodau annibynnol ac archwilio mewnol yn cael ei gynnal i adolygu dull y sefydliad o ganfod, rheoli a lliniaru risgiau. O'r gweithdy hwn, bydd newidiadau a gwelliannau yn cael eu cynnig, i'w hystyried yn ffurfiol gan yr Ombwdsmon a'r Pwyllgor, lle bo hynny'n briodol.
- 6.3 Bydd y Pwyllgor hefyd yn mynd ar drywydd materion blaenorol a ystyriwyd ac a nodwyd fel risgiau neu bryderon penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Seiberddiogelwch a risgiau sy'n ymwneud â TG
  - Rhoi cyfrif am gostau a manteision pwerau newydd
  - Trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

## 7. Archwilio Mewnol ac Allanol

- 7.1 Parhaodd Deloitte LLP i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol yn 2020/21. Roedd y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cwblhau'r gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn y cynllun archwilio mewnol aml-flwyddyn.
- 7.2 Cyfeiriodd rhaglen archwilio dreigl Deloitte LLP at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad ac roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen. Cynhaliwyd yr archwiliadau canlynol a gwnaed yr asesiadau cyffredinol canlynol:

Lles Staff	sicrwydd SYLWEDDOL
Systemau Ariannol:	
Rheoli Arian Parod a Bancio	sicrwydd SYLWEDDOL
Rheoli'r Gyllideb	sicrwydd SYLWEDDOL
Cyflogres	sicrwydd SYLWEDDOL
Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg	sicrwydd SYLWEDDOL
Rheoli Cofnodion	sicrwydd CYMEDROL
Pwerau Newydd	Adroddiad Cynghori

- 7.3 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod lefel y sicrwydd a roddwyd yn '**Sylweddol**' yn y rhan fwyaf o achosion, sef y lefel sicrwydd uchaf. Ar gyfer Rheoli Cofnodion, lle'r oedd y gyfradd sicrwydd yn '**Gymedrol**', gwnaed nifer o argymhellion. Roedd y ffaith bod yr argymhellion a wnaed yn cadarnhau, ar y cyfan, y gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo neu a oedd ar y gweill, yn rhoi tawelwch meddwl i'r Pwyllgor. Bydd yr archwilwyr mewnol newydd yn mynd ar drywydd yr holl argymhellion yn 2021/22.
- 7.4 Ar ben hynny, cynhaliodd yr archwilwyr mewnol archwiliad cynghori o Bwerau Newydd yr Ombwdsmon ar ôl cyflwyno Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019. Gan mai archwiliad cynghori oedd hwn, ni roddwyd sgôr sicrwydd, ond gwnaed nifer o argymhellion. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion hyn ar waith.
- 7.5 Nododd Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2020/21: 'Yn seiliedig ar gasgliadau ein gwaith, gallwn roi sicrwydd sylweddol i'r Ombwdsmon o ran trefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.' Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn gwneud y swyddfa'n llai agored i risg, ac yn rheoli'r risg honno. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

- 7.6 2020/21 oedd blwyddyn olaf y contract cyfredol gyda Deloitte LLP. Ar gyfer 2021/22 ymlaen, yn dilyn ymarfer tendro ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, penodwyd TIAA i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol am gyfnod o dair blynedd. Mae cynllun newydd ar gyfer y cyfnod wedi cael ei baratoi gan TIAA a bydd yn cael ei ddilyn o fis Ebrill 2021 ymlaen.
- 7.7 Rhaid i'r rôl archwilio allanol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gael ei chyflawni ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Archwilio Cymru wnaeth y gwaith hwnnw yn ystod y flwyddyn. Bu'r Pwyllgor yn ystyried elfen cyfrifon Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol OGCC ar gyfer 2019/20, ynghyd â'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2019/20 ar 1 Gorffennaf 2020.
- 7.8 Ystyriodd y Pwyllgor Ddatganiad Llywodraethu drafft y swyddfa ar gyfer 2020/21 a chytuno arno.
- 7.9 Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored at y Cadeirydd, a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a thrwy ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.
- 7.10 Er mwyn sicrhau bod modd codi materion priodol yn gyfrinachol, cynhelir cyfarfod byr rhwng yr Archwilwyr Allanol a Mewnol a holl Aelodau Annibynnol y PASR cyn pob cyfarfod y PASR. Yn ogystal, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 30 Mawrth 2021.

## **8. Prosesau Monitro**

- 8.1 Ym mhob cyfarfod yn ystod 2020/21, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael eu rhoi ar waith neu y byddent yn cael eu rhoi ar waith o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## **9. Adolygiad Blynyddol**

- 9.1 Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i adolygu sut mae'r Pwyllgor yn gweithredu i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arferion Da sydd yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg Trysorlys EM. Mae pedwar ymarferiad asesu allweddol sy'n cyfrannu at yr adolygiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymarferiad hunanasesu a gafodd ei ddilyn gan holl aelodau'r Pwyllgor;
- pob aelod o'r Pwyllgor i lenwi fersiwn wedi'i theilwra o 'Restr Wirio Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- asesiad, gan gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu'r Pwyllgor yn rheolaidd, o berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor; ac
- adolygiadau un i un a thrafodaeth yn cynnwys aelodau'r Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r sylwadau o'r ymarferiadau hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Adolygiad Blynyddol hwn.

- 9.2 Yn yr ymarferiad hunanasesu cafwyd sylwadau cadarnhaol gan bob Aelod o'r Pwyllgor yn y meysydd canlynol:
- Perfformiad yn erbyn yr Amcanion
  - Cyflawniadau ac Effeithiolrwydd Personol
  - Anawsterau
  - Perthynas waith
  - Asesiad o Berfformiad y Pwyllgor
- 9.2 Dangosodd yr ymatebion fod yr aelodau o'r farn bod y Pwyllgor wedi elwa o ystod dda o brofiad ar draws ei aelodaeth, a bod y cyfarfodydd yn agored ac yn onest. Dywedodd yr aelodau hefyd fod yr Ombwdsmon a'i gydweithwyr yn ymgysylltu ac yn ymateb yn gadarnhaol i graffu a herio, yn hytrach nag yn amddiffynnol, a bod safon yr wybodaeth a'r adroddiadau a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn dda. Dywedodd rhai fod gormod o fanylion wedi'u darparu ar adegau.
- 9.3 Nododd aelodau'r pwyllgor fod y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar-lein wedi mynd rhagddynt yn ddidrafferth ar y cyfan, ond eu bod yn edrych ymlaen at ymgysylltu wyneb yn wyneb ag aelodau eraill o'r pwyllgor a staff swyddfa'r Ombwdsmon pan oedd hyn yn bosibl.
- 9.4 Mae pob aelod o'r Pwyllgor wedi llenwi'r fersiwn wedi'i theilwra o restr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cafodd yr ymatebion eu crynhoi a'u hadrodd i'r Pwyllgor. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r aelodau wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau a ofynnwyd. Cafodd ychydig o gwestiynau a sylwadau hefyd eu codi a'u hamlygu mewn adroddiad i'r Pwyllgor, ynghyd â manylion unrhyw gamau angenrheidiol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod digon o ffocws ar seiberddiogelwch a mynediad at gyngor priodol ar y pwnc hwn.
- 9.6 Yn y trydydd o'r ymarferiadau asesu y cyfeiriwyd atynt uchod, gofynnwyd i gynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol, ac aelodau o staff OGCC sy'n mynychu cyfarfodydd y PASR yn rheolaidd, lenwi arolwg ac ateb cwestiynau am berfformiad a chyfraniad y Pwyllgor. Roedd y cwestiynau'n ymdrin â chyfathrebu rhwng y PASR a'r sefydliad, pa mor effeithiol yw'r cyfarfodydd, sut cadeiriwyd y cyfarfodydd, gwybodaeth a phrofiad y Pwyllgor, gonestrwydd ac ymddiriedaeth, ac a yw'r Pwyllgor yn darparu her adeiladol ai peidio. Roedd pob un o'r 14 ymateb yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ynghylch gweithrediad a chyfraniad y Pwyllgor ar draws yr holl feysydd hyn.
- 9.7 Yn olaf, roedd y trafodaethau un i un blynyddol yn cynnwys y Cadeirydd a rhoddodd aelodau unigol o'r Pwyllgor adborth ar weithgareddau'r Pwyllgor a'r modd y cynhelir y cyfarfodydd. Roedd hyn yn gadarnhaol. Nododd aelodau'r Pwyllgor ansicrwydd a risg ynghylch diwedd cyfnod swydd yr Ombwdsmon gan gwestiynu maint priodol y Pwyllgor (sef 7 aelod annibynnol ar hyn o bryd oherwydd, er mwyn osgoi colli gwybodaeth a phrofiad yn sydyn, dechreuodd aelodau newydd cyn i aelodau eraill gyrraedd diwedd eu cyfnod yn y swydd). Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n briodol cynnal adolygiad manwl o ddull gweithredu'r Ombwdsmon ar gyfer canfod, rheoli a lliniaru risgiau. Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i sicrhau bod gwahanol gyfrifoldebau'r PASR a'r Panel Ymgynghorol yn cael eu deall yn glir, er mwyn osgoi

dyblygu a lleihau gorgyffwrdd. Bydd y materion hyn, ynghyd â'r rheini sy'n codi o Holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn cael sylw yn ystod 2021/22.

## **10. Asesiad Cyffredinol**

- 10.1 Wrth ddatblygu'r Adolygiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ei fod wedi cael y sicrwydd cynhwysfawr sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion a bod yr wybodaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn wedi bod yn ddibynadwy ac yn ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae wedi'i fodloni hefyd fod y sicrwydd yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol. Wrth gyflawni ei rôl, mae'r cyswllt y mae'r Pwyllgor wedi'i gael â'r Ombwdsmon a'i staff sydd wedi bod yn destun craffu ac sydd wedi cael eu herio wrth gyflawni eu dyletswyddau, wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor.
- 10.2 Hefyd, mae'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn gallu cyflawni ei rôl yn effeithiol am fod gwybodaeth ar gael gan y rhai sy'n gweithio yn swyddfa'r Ombwdsmon ac o'r gwaith a wnaed gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae natur yr wybodaeth honno a'r ffordd y caiff ei chyflwyno yn golygu bod modd cyfnewid barn a chyngor mewn modd cefnogol a heriol, ac mae hynny wedi galluogi'r Pwyllgor i gefnogi'r Ombwdsmon.
- 10.3 Felly, mae'r Pwyllgor wedi gallu rhoi sicrwydd i gefnogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn effeithiol i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor yn hyderus ei fod wedi cyflawni ei rôl yn gadarn ac yn broffesiynol wrth ddarparu'r sicrwydd hynny, gan fanteisio ar arbenigedd a phrofiadau helaeth aelodau'r Pwyllgor.
- 10.4 Wrth adolygu ei berfformiad ei hun bob blwyddyn, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi rhoi her i aelodau unigol asesu eu perfformiad a'u cyfraniad eu hunain. Mae o'r farn bod y Pwyllgor wedi gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arfer da.

## **11. Diolchiadau**

- 11.1 Mae'r Cadeirydd yn ddiolchgar i Jonathan Morgan am ei arweiniad a'i gefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd y PASR a hefyd i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor, Tom Frawley, Jim Martin, Anne Jones, Trevor Coxon, Mike Usher a John McSherry am eu gwaith, eu cyfraniadau, eu cymorth a'u cefnogaeth. Yn yr un modd, hoffai ddiolch i'r Ombwdsmon, Nick Bennet, ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ac aelodau Tîm Rheoli OGCC a'r staff am eu cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn. Yn olaf, mae'r Cadeirydd yn ddiolchgar i Ann-Marie Harkin a Jeremy Saunders o Archwilio Cymru ac Ian Howse a'i dîm yn Deloitte LLP am eu cymorth parhaus a'u cyngor doeth yn ystod y flwyddyn.

Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Atodiad B – Rhaglen Waith 2020-2021, wedi'i diweddarau i gynnwys ffigurau gwirioneddol Atodiad C - Rhaglen Waith 2021-2022
---

\*\*\*\*\*

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

### Statws y Pwyllgor

Mae'r Ombwdsmon wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyda rôl i gefnogi'r Ombwdsmon o ran ei gyfrifoldebau am faterion perthnasol i reoli risg a llywodraethu, drwy adolygu ehangder y sicrwydd wrth ddiwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac uniondeb y sicrwydd hwn.

### Aelodaeth

Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon ac a all gynnwys rhywun o swyddfa ombwdsmon arall)
- hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella yn Ysgrifennydd i'r Pwyllgor. Bydd yr Ombwdsmon, ac aelodau eraill y Tîm Rheoli fel y'u pennir gan yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae dewis gan yr Ombwdsmon i ymestyn y cyfnod hwn am flwyddyn arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor i fod yn Gadeirydd ar sail argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pe bai'r Ombwdsmon yn penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, caiff penderfyniad yr Ombwdsmon ei nodi yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

### Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghlŷn â'r canlynol:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol;
- y cynlluniau Strategol a Busnes drafft ar sail cydymffurfiaeth, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i gydnabod y gofyniad gyda'r archwiliad blynnyddol i roi cyfrif am ddefnyddio cronfeydd;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol;
- pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a ganfuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr archwilio allanol;
- sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y sefydliad;



- (pan fo'n briodol) cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan contractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisiau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- hefyd, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd.

## **Hawliau**

Caiff yr Ombwdsmon a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wneud y canlynol:

- cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a helpu'r Pwyllgor i gynrychioli'r cymunedau y mae'r Ombwdsmon yn eu gwasanaethu;
- gofyn am gyngor ad hoc arbenigol, ar yr amod bod hynny o fewn y gyllideb.

## **Mynediad**

- Bydd gan gynrychiolydd yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd yr Archwiliad Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## **Cyfarfodydd**

- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg neu'r Ombwdsmon alw cyfarfodydd ychwanegol, fel sydd angen yn eu barn nhw.
- Bydd gofyn bod o leiaf tri aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn bresennol er mwyn i'r cyfarfod gael ei ystyried yn gyfarfod â chworwm.
- Os na fydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu dod i gyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cymryd y gadair.
- Yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel arfer bydd yr Ombwdsmon; Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau; Rheolwr TG; Cyfrifydd Ariannol; cynrychiolwyr Archwilio Mewnol; a chynrychiolwyr Archwilio Allanol.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw swyddog arall o'r swyddfa fynychu er mwyn ei gynorthwyo gyda'i drafodaethau ynglŷn ag unrhyw fater.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wahodd pobl neu gyrff eraill i fynychu cyfarfodydd er mwyn rhoi cyngor proffesiynol neu wybodaeth am unrhyw fater y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn berthnasol ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau'n briodol.
- Caiff y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ofyn i unrhyw un, neu bawb, sy'n arfer mynychu'r cyfarfod ond nad ydynt yn aelodau, adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol.

## **Datgan Buddiannau Aelodau**

Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol yn unol â Pholisi OGCC ar [Ddatgan Buddiannau](#) yng nghyswllt aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## **Gofynion o ran gwybodaeth**

Ar gyfer pob cyfarfod, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i Gofrestr Risgiau'r sefydliad, yn ogystal â rhestr o eitemau risg Uchel a Chanolig;

- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Mewnol yn crynhoi'r canlynol:
  - y gwaith a gyflawnwyd (a'i gymharu â'r gwaith a fwriadwyd);
  - materion allweddol sy'n deillio o waith Archwilio Mewnol;
  - ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
  - newidiadau i'r Cynllun Cyfnodol;
  - unrhyw faterion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion Archwilio Mewnol.
- adroddiad neu adroddiadau am unrhyw achosion arwyddocaol o dorri fframwaith rheoli'r sefydliad, twyll ariannol, colledion, gwaredu asedau, dileu, caffael y tu allan i'r trefniadau arferol ac unrhyw faterion eraill y mae'r Pwyllgor yn gofyn am adroddiad arnynt ymhob un o'i gyfarfodydd.

Bydd y cynrychiolydd Archwilio Allanol yn adrodd fel y bo'n briodol ar unrhyw waith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Pan fo'n briodol, rhoddir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:

- y Strategaeth Archwilio Mewnol;
- cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl yr Archwiliad Mewnol;
- copi o'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;
- unrhyw adroddiadau sicrhau ansawdd ar y swyddogaethau Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cyfrifon drafft y sefydliad;
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisiâu cyfrifyddu;
- Adroddiad ISA 260 Archwilio Mewnol a llythyr y rheolwyr mewn perthynas â hynny;
- adroddiad llafar ar y cydweithio rhwng gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol;
- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan gcontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- unrhyw newidiadau i'r polisi a'r strategaeth rheoli risg;
- unrhyw newidiadau i bolisiâu gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i unrhyw elfennau o'r fframwaith rheoli.

### **Adrodd**

- Bydd pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn rhoi Adroddiad Blynyddol i'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i ategu'r gwaith o lunio'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Sylwch: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â'r Cylch Gorchwyl hwn, nid oes gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nac unrhyw aelodau unigol unrhyw rôl na chylch gwaith yng nghyswllt penderfyniadau am waith achos a wneir gan OGCC a rhoi cyngor yn unig yw eu gwaith mewn materion gweithredol.

\*\*\*\*\*

Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Tîm Rheoli ar 13 Awst 2020 i'w hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 29 Medi 2020.  
Adolygiad Nesaf: Medi 2021

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) 2020/21**

Arfaethedig	Gwirioneddol a Rhif yr Eitem
<b>Mai 2020</b>	<b>26 Mai 2020</b>
Dosbarthu Cyfrifon Blynyddol Drafft 2019/20 i aelodau	
<b>Mehafin 2020</b>	<b>1 Gorffennaf</b>
Cyfrifon Blynyddol 2019/20 (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu)	6
Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr	7
Adroddiad Monitro Ariannol	9
Y Gofrestr Risgiau	13
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)	Dim
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd	12
Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR	14
Prosiectau TGCh	16
Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol	15
<b>Medi 2020</b>	<b>29 Medi</b>
Adroddiad Monitro Ariannol	13
Y Gofrestr Risgiau	14
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)	Lles 11b
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio	11a
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd	15
Adolygu'r fframwaith Atal Twyll a threfniadau gwrth-lygredd	16
Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR	17
Prosiectau TGCh	18
<b>Ionawr 2021</b>	<b>27 Ionawr</b>
Adroddiad Monitro Ariannol	7.3
Y Gofrestr Risgiau	6.1
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)	Llywodraethu a Risg 5.2a Pwerau Newydd 5.2b Systemau Ariannol 5.2c
Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio	5.3
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd	5.3/7.1
Adolygu'r Cylch Gorchwyl a'r Rhaglen Waith	8.2
	Cylch Gorchwyl (29 Medi) 7
Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR	8.1
Prosiectau TGCh	6.3
<b>Ebrill 2021</b>	
Cyfrifon Naw Mis	
Datganiad Llywodraethu Drafft	
Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2021/22	
Adroddiad Blynyddol y PASR	
Adroddiad Monitro Ariannol	
Y Gofrestr Risgiau	
Archwilio Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2020/21	
Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22	
Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)	
Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd	
Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR	
Prosiectau TGCh	

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
**Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) 2021-2022**

**Mai 2021**

Dosbarthu Cyfrifon Blynyddol Drafft 2020-2021 i aelodau'r PASR

**Gorffennaf 2021**

Cyfrifon Blynyddol 2020/2021 (gan gynnwys Datganiad Llywodraethu)  
 Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr  
 Adroddiad Monitro Ariannol  
 Y Gofrestr Risgiau  
 Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)  
 Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd  
 Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR  
 Prosiectau TGCh  
 Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol

**Hydref 2021**

Adroddiad Monitro Ariannol  
 Y Gofrestr Risgiau  
 Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)  
 Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio  
 Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd  
 Adolygu'r fframwaith Atal Twyll a threfniadau gwrth-lygredd  
 Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR  
 Prosiectau TGCh

**Ionawr 2022**

Adroddiad Monitro Ariannol  
 Y Gofrestr Risgiau  
 Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)  
 Archwilio Mewnol - Adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio  
 Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd  
 Adolygu'r Cylch Gorchwyl a'r Rhaglen Waith  
 Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR  
 Prosiectau TGCh

**Ebrill 2022**

Cyfrifon Naw Mis  
 Datganiad Llywodraethu Drafft  
 Archwilio Allanol – Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2022/2023  
 Adroddiad Blynyddol y PASR  
 Adroddiad Monitro Ariannol  
 Y Gofrestr Risgiau  
 Archwilio Mewnol - Adroddiad Blynyddol 2021-2022  
 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-2023  
 Adroddiadau Archwilio Mewnol (os o gwbl)  
 Argymhellion Archwilio Mewnol/Allanol – Adroddiad Cynnydd  
 Materion y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r PASR  
 Prosiectau TGCh